

Prosiect Pleidlais

Tasg Arbennig



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Prosiect Pleidlais

Tasg Arbennig:

Er bod plant o dan 16 yn methu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd, mae gan holl blant Cymru hawl i gael eu gwranddo a'u cymryd o ddifri (Erthygl 12).

Efallai bydd plant yn teimlo nad ydyn nhw'n derbyn rhai o'u hawliau ar hyn o bryd, neu efallai byddan nhw'n teimlo'n angerddol am fater arbennig, ac eisiau creu newid.

Rydym wedi paratoi dwy wers ar etholiadau'r Senedd a democratiaeth i chi wneud yn yr ystafell dosbarth.

Eich Tasg Arbennig y tymor yma yw dweud wrthyn ni pa newid byddech chi'n ei wneud, tasech chi'n Brif Weinidog Cymru am ddiwrnod. Efallai byddech chi am newid rhywbeth yn eich ardal neu eich cymuned leol, neu newid rhywbeth mawr, sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.

Cwblhewch y daflen weithgaredd "Taswn i'n Brif Weinidog Cymru..." i ddweud wrthyn ni. Gallech chi gasglu holl atebion eich dosbarth neu eich grŵp a throï'r cyfan yn waith celf neu'n ddarn mawr o waith ysgrifenedig gan eich ysgol.

Dywedwch wrthyn ni beth hoffech chi newid erbyn 26 Mawrth 2021. Gallwch chi anfon e-bost aton ni i post@complantcymru.org.uk neu anfon trydariad i @complantcymru.

Gwers:

Mae'r gwersi canlynol wedi cael eu creu i gyd-fynd â'r Prosiect Pleidlais: etholiad paralel i blant a phobl ifanc 11-15 oed.

Fel Ysgolion Cynradd, mae croeso i chi gymryd rhan yn yr etholiad paralel os ydych chi'n meddwl bydd hi'n addas i'ch dysgwyr chi.

Yn syml, ewch at wefan y [Prosiect Pleidlais](#) a llenwch y [ffurflen](#). Byddwn ni'n cysylltu gyda chi er mwyn eich ychwanegu at ein databas i dderbyn linc i'ch e-bleidlais ym mis Ebrill.

Rydyn ni wedi creu taflenni gwaith i'r disgyblion eu cwblhau'n annibynnol gartre, ac wedi awgrymu gwर्स fyw / sesiwn wyneb yn wyneb ategol i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Erbyn diwedd y gwersi, bydd y disgyblion yn:

- Deall y gwahaniaeth rhwng y Senedd a San Steffan

- Cysylltu elfennau o'u bywydau eu hunain â gwleidyddiaeth
- Dysgu beth yw plaid wleidyddol
- Dysgu mwy am sut mae'r Senedd yn gweithio

Gwers un: Y Senedd

Os ydych chi'n cyflwyno'r wers hon ar-lein, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n ei rhannu yn 3 gwers ar wahân er mwyn i'r disgyblion fedru cwblhau'r gweithgaredd annibynnol ar ôl pob sesiwn.

Gwers Fyw / Wyneb yn Wyneb	Gwybodaeth/Adnoddau Ychwanegol	Gweithgaredd annibynnol dysgu o bell
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Dangoswch lun o'r Senedd i'r disgyblion.</p> <p>Oes unrhyw un yn gwybod beth yw enw'r adeilad yma?</p> <p>Oes unrhyw un yn gwybod ble mae'r adeilad yma?</p> <p>Pam mae'r adeilad yma'n bwysig i Gymru?</p> <p>Esboniwch mai enw'r adeilad yw'r Senedd, a'i fod yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru.</p> <p>Dyma'r adeliad lle mae rhai pobl o'r enw Aelodau o'r Senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio pobl Cymru.</p> <p>Dangoswch lun neu fideo o Aelod o'r Senedd (AS).</p>	<p>Gallech ddod o hyd i'r aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli eich ardal chi yma -</p> <p>https://senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/</p>	<p>Ar ôl y drafodaeth, gall y disgyblion lenwi Taflen Weithgaredd un.</p>

<p>Gofynnwch oes unrhyw rai o'r disgyblion yn adnabod y person yma.</p> <p>Esboniwch eu bod nhw'n Aelod o'r Senedd, sef rhywun sy'n gweithio yn adeilad y Senedd ac yn gwneud penderfyniadau am Gymru.</p> <p>Mae adeilad arall pwysig yn y Deyrnas Unedig lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Dangoswch lun o San Steffan i'r disgyblion. Dyma lle mae Tŷ'r Cyffredin, lle mae'r Aelodau Senedd San Steffan (MPs) yn cwrdd.</p> <p>Dywedwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n canolbwyntio ar y Senedd, lle mae Aelodau Senedd Cymru (AS) yn cwrdd.</p>		
<p>PRIF ELFEN:</p> <p>Esboniwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n meddwl am etholiad.</p> <p>Etholiad yw pan fydd pobl yn dewis person i fod yn gyfrifol am rhwybeth.</p> <p>Esboniwch y bydd etholiad mawr yng Nghymru ym mis Mai 2021 i benderfynu pwy</p>	<p>Estyniad: Powerpoint San Steffan neu'r Senedd. Defnyddiwch ein Powerpoint San Steffan neu'r Senedd</p>	<p>Gall Taflen Weithgaredd 2 gael ei llenwi ar ôl y drafodaeth hon</p>

fydd yn dod yn Aelodau
o'r Senedd. Grŵp o bobl
sy'n gwneud
penderfyniadau yng
Nghymru yw'r Senedd.

Esboniwch y bydd yr
etholiad yn 2021 yn
gyffrous oherwydd bod
pobl ifanc 16 oed yn
gallu pleidleisio am y
tro cyntaf.

Dywedwch wrth y myfyrwyr
eich bod chi'n mynd i
feddwl am pam mae pobl yn
pleidleisio.

Gofynnwch i'r myfyrwyr
[edrych ar y daflen waith](#).
Gofynnwch iddyn nhw
farcio neu roi cylch o
gwmpas yr holl bethau
maen nhw'n eu defnyddio.
Gallech chi ddechrau trwy
ofyn i bawb roi cylch o
ambell un peth sy'n
gyffredin i'r grŵp cyfan
(e.e. mewn lleoliad
ysgol, bydd pawb ohonyn
nhw'n mynd i'r ysgol /
mae angen gofal iechyd ar
bawb ohonon ni).

Gofynnwch i'r myfyrwyr
ydyn nhw'n meddwl bod y
pethau yma'n bwysig.

Esboniwch wrth y myfyrwyr
fod y bobl yn y Senedd yn
gwneud penderfyniadau am
yr holl bethau yma. Er
enghraifft, rhai o'r
pethau maen nhw'n dysgu
yn yr ysgol a pha mor dda

<p>rydyn ni'n ailgylchu gwastraff yng Nghymru.</p> <p>Felly mae pobl yn pleidleisio i wneud yn siŵr bod y bobl yn y Senedd yn poeni am yr un pethau sy'n bwysig iddyn nhw.</p>		
<p>MYFYRIO</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion rannu'r ffeithiau maen nhw'n gallu eu cofio.</p> <p>Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddysgu mwy am y Senedd, y bobl sy'n gweithio yno a sut maen nhw'n cael eu swyddi yn y wers nesaf.</p> <p>Gallech chi orffen y wers ag un gêm ddyfalu olaf. Dangoswch luniau o Boris Johnson a Mark Drakeford. Gofynnwch i'r disgyblion:</p> <p>Pwy sy'n gallu dweud wrthyf fi beth yw eu henwau?</p> <p>Oes unrhyw un yn gwybod beth yw teitlau eu swyddi?</p> <p>P'un o'r bobl yma sy'n gweithio yn y Senedd?</p> <p>P'un o'r bobl yma sy'n gweithio yn San Steffan?</p>		<p>Ar ddiwedd y sesiwn gall y disgyblion lenwi Taflen Weithgaredd 3: Pwy ydw i?</p>

Gwers 2: Sut mae'r Senedd yn gweithio

Bydd angen cefnogaeth gwera fyw ar y gweithgaredd yma i esbonio'r daflen waith i'r disgyblion.

Gwers fyw/Wyneb yn wyneb	Gwybodaeth/adnoddau ychwanegol	Gweithgaredd annibynnol dysgu o bell
Cyflwyniad: Esboniwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i ddysgu		

<p>sut mae'r Senedd yn gweithio yn y sesiwn hon.</p> <p>Atgoffwch y disgyblion eich bod chi, yn y wers ddiwethaf, wedi edrych ar y gwahanol benderfyniadau mae aelodau o'r Senedd yn eu gwneud (dangoswch y daflen luniau i'r disgyblion a chrynhoi'r dysgu).</p> <p>Dywedwch wrth y disgyblion fod aelodau'r Senedd, y rhan fwyaf o'r amser, yn perthyn i 'blaid, sef grwp o bobl.</p> <p>Fel arfer mae gan bobl sy'n perthyn i blaid wleidyddol syniadau tebyg ac maen nhw eisiau gwneud yr un newidiadau i'r wlad.</p> <p>Dywedwch wrth y disgyblion, pan fydd rhywun yn pleidleisio, eu bod nhw'n pleidleisio dros berson i ennill lle yn y Senedd (sedd). Mae pob person sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn y rhannau gwahanol o'r wlad yn ennill sedd. Mae'r bobl yma fel arfer yn perthyn i un o'r pleidiau, sy'n golygu bod y blaid hefyd wedi ennill sedd.</p>	<p>Efallai byddwch chi am roi enghraifft fan hyn, e.e. mae Mrs Jones yn aelod o blaid y Bananas. Petai Mrs Jones yn cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn ei hardal hi, byddai hi'n ennill sedd.</p> <p>Byddai hynny hefyd yn golygu bod Plaid y Bananas yn ennill sedd, oherwydd bod Mrs Jones yn perthyn i'r blaid honno.</p>	
<p>Rhannwch y diagram o'r 60 cylch. Esboniwch wrth y disgyblion fod 60 o wahanol wleidyddion yn gweithio yn y</p>		

<p>Senedd. Bydd rhan fwyaf ohynynt yn berthyn i blaid.</p> <p>Mae gan bob plaid bethau bydden nhw'n hoffi eu newid, a pho fwyaf o bobl sydd ganddyn nhw yn y Senedd, hawsaf fydd hi iddyn nhw newid rhywbeth.</p> <p>Mae hyn i gyd yn swnio'n gymhleth IAWN, ond dyw e ddim.</p> <p>Esboniwch eich bod chi wedi rhoi taflen weithgaredd i bob plentyn, a bod TAIR plaid ar bob taflen, Plaid A, Plaid B a Phlaid C. Gofynnwch i'r disgyblion gytuno ar liw ar gyfer pob Plaid.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r daflen weithgaredd cyn dod nôl at ei gilydd i drafod eu hatebion.</p>		
<p>Prif elfen:</p> <p>Ewch trwy'r cwestiynau ar y daflen weithgaredd i wneud yn siŵr bod gan y disgyblion yr atebion cywir.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion:</p> <p>Pa Blaid sydd â'r nifer mwyaf o aelodau?</p> <p>Pa Blaid sydd â'r nifer lleiaf o aelodau?</p>	<p>Gallech chi greu senario fan hyn, e.e. mae Plaid C eisiau rhoi ci bach anwes i bawb yng Nghymru. Mae Plaid B eisiau rhoi cath fach anwes i bawb yng Nghymru. Pa blaid fyddai'n fwyaf tebygol o ennill y bleidlais? (Plaid B yw'r blaid fwyaf, felly byddai'n ennill y</p>	<p>Dylai'r disgyblion ddychwelyd i'r sesiwn gyda'r daflen weithgaredd wedi'i chwblhau (Gweithgaredd Senedd)</p>

<p>Dywedwch wrth y disgyblion fod rhaid i Aelodau o'r Senedd bleidleisio, yn y Senedd, er mwyn creu newid, fel pasio cyfraith.</p> <p>Bydd angen i fwyafrif (fel arfer mwy na hanner) o aelodau i bleidleisio am rywbeth er mwyn gwneud iddo ddigwydd.</p> <p>Gofynnwch:</p> <p>Pwy fyddai'n gallu gwneud newid yn haws? Plaid A, B, neu C?</p> <p>Ateb: Plaid B. Mae ganddyn nhw dros hanner y seddi yn barod, felly petai pob aelod o'r plaid yn pleidleisio am newid penodol, bydd hynny yn pasio.</p> <p>Bydd angen i bleidiau A a C perswadio y pleidiau eraill bod eu syniadau nhw yn rhai da. Os na fydden nhw'n llwyddo i wneud hyn, efallai mai dim ond eu haelodau nhw bydd yn pleidleisio dros y newid maen nhw eu heisiau, ac felly fydd ddim difon o niferoedd ganddynt.</p> <p>Mae'n haws creu newidiadau yn y Senedd pan fydd gennych chi lawer o aelodau o'r un blaid.</p>	<p>bleidlais, fwy na thebyg.)</p>	
--	-----------------------------------	--

<p>Ar ôl yr etholiad, bydd yr aelodau i gyd yn pleidleisio i ddewis y Prif Weinidog. Bydd y Prif Weinidog yn mynd ati i arwain Llywodraeth Cymru, ac yn gyfrifol am arwain y wlad.</p>		
<p>MYFYRIO</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion:</p> <p>Cyfanswm o faint o seddau sydd yn y Senedd?</p> <p>Beth yw plaid wleidyddol?</p> <p>Ydy hi'n haws i bleidiau mawr neu bleidiau bach greu newidiadau yn y Senedd?</p> <p>Dywedwch wrth y disgyblion y byddan nhw, ar gyfer eu tasg olaf, yn dychmygu mai nhw yw Prif Weinidog Cymru.</p> <p>Gofynnwch iddyn nhw feddl am y mathau o bethau bydden nhw'n ceisio'u newid. Gallai fod yn rhywbeth mawr neu'n rhywbeth bach!</p>		

Gweithgaredd 1

Llenwch y geiriau sydd ar goll



Enw'r adeilad yma yw'r _____.

Mae'r adeilad yma
yng _____.

Caerdydd yw _____
Cymru.



Enw'r adeilad yma yw _____.

Mae'r adeilad yma yn
_____.

Llundain yw prifddinas
_____.

Geiriau sydd ar goll

Y Deyrnas Unedig

Senedd

San Steffan

Caerdydd

Prifddinas

Llundain

Gweithgaredd 2 : Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

Meddyliwch am ddiwrnod arferfol i chi. Beth sy'n digwydd? Ble chi'n mynd? Ysgrifewch amserlen ar gyfer eich diwrnod isod.

<i>Amser</i>	<i>Beth sy'n digwydd</i>

Edrychwch ar y [daflen luniau](#). Tynnwch gylch o amgylch unrhyw un o'r pethau sy'n cyd-fynd â'ch amserlen chi.

Oeddech chi'n gwybod bod y Senedd (Llywodraeth Cymru) yn gwneud penderfyniadau am y pethau hynny?

Gweithgaredd 3 : Pwy ydw i?

Edrychwch ar y lluniau isod. Ydych chi'n gallu llenwi'r gwagle?



Fy enw i yw _____.

Fi yw _____.

Rydw i'n gweithio yn y _____.



Fy enw i yw _____.

Fi yw'r _____.

Rydw i'n gweithio yn
_____.

Geiriau sydd ar goll

San Steffan

Prif Weinidog Cymru

Boris Johnson

Senedd

Prif Weinidog

Mark Drakeford